EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Fesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.

Maent yn gymwys i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol ac yn rhannol i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Cyfeirir at y rhain fel "awdurdodau dynodedig". Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru a'r awdurdodau lleol sy'n dod o fewn eu hardaloedd i weithio gyda'i gilydd i baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n dangos sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd i helpu a chynnwys gofalwyr yn y trefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer y rhai y maent yn gofalu amdanynt.

Mae rheoliad 3 yn darparu mai Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru yw'r "awdurdod arweiniol" wrth baratoi a chyhoeddi'r strategaeth ar y cyd y mae'n rhaid iddynt ei pharatoi gydag awdurdodau lleol. Rhaid i awdurdodau lleol gymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r strategaeth a rhaid i'r Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol fel ei gilydd roi'r strategaeth ar waith. Rhaid i Ymddiriedolaethau GIG baratoi a chyhoeddi strategaeth a gallant gyflawni'r ddyletswydd drwy gymryd rhan yn y broses o baratoi strategaethau'r Byrddau Iechyd Lleol.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n paratoi strategaethau ymgynghori â chyrff gwirfoddol.

Mae rheoliad 5 yn gwneud gofynion penodol ynghylch y materion sydd i'w cynnwys mewn strategaeth.

Mae rheoliad 6 yn rhagnodi mathau penodol o wybodaeth sydd i'w darparu i ofalwyr yn "wybodaeth briodol a chyngor priodol".

Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth bellach am y sylw y mae'n rhaid i strategaeth ei roi i faterion mewn perthynas ag ymgynghori â gofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Mae rheoliad 8 yn darparu bod rhaid cyflwyno strategaethau ar ffurf ddrafft i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Os na roddir cymeradwyaeth, yna rhaid i'r awdurdodau dynodedig gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau am gynnwys y strategaeth neu am amseriad ei hailgyflwyno.

Mae rheoliad 9 yn darparu bod strategaethau i'w paratoi i gwmpasu cyfnod o dair blynedd a bod rhaid iddynt gael eu hadolygu ar ôl 18 mis a chyn paratoi'r strategaeth nesaf. Rhaid i'r awdurdodau dynodedig ddarparu adroddiad blynyddol ar sut y mae'n rhoi'r strategaeth ar waith a'i monitro ar y cyd â'r awdurdodau lleol. Pan fo'r awdurdodau yn dymuno gwneud diwygiadau sylweddol i'r strategaeth rhaid iddi gael ei hailgyflwyno i'w chymeradwyo. Rhaid i strategaeth gael ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol i wneud hynny.

Mae rheoliad 10 yn pennu, yn achos strategaethau sy'n cael eu paratoi ar y cyd gan Fwrdd Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol, bod y cyfrifoldeb am ddyletswyddau penodol sy'n codi o dan reoliad 9 i'w ysgwyddo gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ynghylch costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Adran Iechyd, Gwanasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.